motor neurone disease association
cymdeithas clefyd motor niwron




# Llawlyfr gwirfoddoli

## Cymdeithas MND

Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor yw'r unig elusen yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon sydd yn canolbwyntio ar ofal, ymchwil ac ymgyrchu dros MND.
Ein cenhadaeth yw:

- Gwella gofal a chymorth ar gyfer pobl ag MND, eu teuluoedd a'u gofalwyr
- Ariannu a hyrwyddo ymchwil sydd yn arwain at ddealltwriaeth a thriniaethau newydd, ac yn dod â ni'n agosach at iachâd o MND
- Ymgyrchu a chodi ymwybyddiaeth fel bod anghenion pobl sydd wedi eu heffeithio gan MND yn cael eu cydnabod a'u trin gan gymdeithas ehangach.

> Mae'n fraint bod yn wirfoddolwr i Gymdeithas MND. Y peth sydd yn rhoi'r boddhad mwyaf yw gwybod fy mod wedi helpu pobl i gael mynediad at y gwasanaeth, y cyfarpar a'r cymorth sydd ei angen arnynt.
>
> Jo-Ann, Gwirfoddolwr

## Ein hymrwymiad i wirfoddoli

Cafodd ein Cymdeithas ei sefydlu gan wirfoddolwyr ac maent yn parhau i chwarae rhan fawr yn ffurfio ein gweithgareddau. Mae eu cyfraniad yn unigryw, yn hanfodol ac yn hollbwysig i gyflawni ein cenhadaeth. Mae gwirfoddolwyr yn gysylltiedig â phob agwedd bron ar waith y Gymdeithas. Mae'r cyfraniadau ategol y mae gwirfoddolwyr a staff cyflogedig yn eu gwneud, gan weithio gyda'i gilydd, yn ein galluogi ni i gyflwyno gwasanaeth o ansawdd uchel i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND.

Rydym yn cydnabod bod gwirfoddoli, i rai, yn ymrwymiad hirdymor, tra bod gweithgareddau gwirfoddoli yn gallu bod yn rhywbeth tymor byr neu untro i eraill. Rydym yn gwerthfawrogi gwirfoddoli yn y Gymdeithas ar ba ffurf bynnag.

## Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?

Mae'r polisi hwn ar gyfer gwirfoddolwyr y Gymdeithas MND sydd wedi derbyn rôl y cytunwyd arni gyda'r elusen.



# Dechrau arni

### Y broses recriwtio
Mae'r Gymdeithas MND yn gwerthfawrogi ceisiadau gan wirfoddolwyr o gymunedau amrywiol ac yn trysori'r ystod o brofiad, sgiliau, ymroddiad ac ewyllys da y mae gwirfoddolwyr yn eu cynnig.

Rydym yn cynnal cyfweliadau anffurfiol er mwyn sicrhau bod y rôl yn iawn ar gyfer y ddwy ochr ac y bydd pobl yn llysgenhadon addas i'r Gymdeithas.

Bydd angen sgrinio ychwanegol ar gyfer rhai rolau, er enghraifft, os yw'r rôl yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda phobl sydd wedi eu heffeithio gan MND neu eu cefnogi.

### Cymorth
Bydd gan bob gwirfoddolwr wirfoddolwr neu aelod o staff wedi eu henwi fel prif gyswllt. Er bod rhai gwirfoddolwyr yn cael cymorth gan eu cangen neu bwyllgor grŵp lleol, bydd eraill yn cael cymorth aelod o staff fel Cydlynydd Cymorth Ardal neu wirfoddolwr fel Cydlynydd Ymwelwyr y Gymdeithas.

### Oed gwirfoddolwyr
Nid oes terfyn oed uwch ar gyfer gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, gall fod sefyllfaoedd lle bydd angen i ni ofyn i rywun roi'r gorau i weithgareddau gwirfoddoli penodol, er enghraifft os yw materion iechyd yn cael eu hystyried yn risg i'r gwirfoddolwr neu bobl eraill o'u hamgylch.

Bydd gan rai rolau gyfyngiadau isafswm oed er mwyn sicrhau nad ydym yn cyflwyno unrhyw risg diangen i wirfoddolwyr ifanc, er enghraifft, os yw'r rôl yn cynnwys rhoi cymorth uniongyrchol i bobl sydd wedi eu heffeithio gan MND (isafswm oed yw 18). Bydd angen cydsyniad rhiant / gofalwr ar wirfoddolwyr 16 neu 17 oed yn y rhan fwyaf o achosion. Dim ond gyda goruchwyliaeth rhiant / gofalwr neu oedolyn cyfrifol arall y gall pobl ifanc o dan 16 oed wirfoddoli.

### Cofnodion troseddol
Ni fydd cael cofnod troseddol o reidrwydd yn rhwystr i wirfoddoli gyda'r Gymdeithas MND. Bydd hyn yn dibynnu ar natur y rôl ac amgylchiadau a chefndir y drosedd (troseddau). Ar gyfer nifer fach o rolau, gall fod angen DBS (gwiriad cofnodion troseddol).



## Cyfrifoldebau

Bydd y Gymdeithas MND:

- Yn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn gallu defnyddio eu potensial
- Yn gweithio'n gydweithredol gyda gwirfoddolwyr i nodi'r rôl gywir iddyn nhw, gan ystyried eu hysgogiadau a'u dyheadau yn ogystal â'u sgiliau a'u profiadau
- Yn hybu agwedd gadarnhaol a brwdfrydig tuag at wirfoddoli ar draws y Gymdeithas
- Yn darparu proffil rôl gwirfoddoli yn egluro'r rôl, cyfrifoldebau a'r safonau gofynnol, lle y bo'n briodol i'r rôl
- Yn cynnig addysg a chymorth priodol i wirfoddolwyr
- Yn parchu ein gwirfoddolwyr i gyd, yn gwrando ac yn dysgu o'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud, gan annog cyfathrebu dwy ffordd
- Yn dathlu llwyddiant ac yn cydnabod cyfraniadau gwirfoddolwyr
- Yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wirfoddolwyr am ein gwaith, ein polisïau a'n gweithdrefnau
- Yn gwneud trefniadau angenrheidiol i sicrhau iechyd, diogelwch a lles gwirfoddolwyr
- Yn gwrando ac yn gweithredu ar bryderon gwirfoddolwyr os oes ganddynt unrhyw broblemau neu anawsterau
- Yn ad-dalu treuliau parod y cytunwyd arnynt.

## Disgwyliadau

Mae'r Gymdeithas MND yn gofyn i wirfoddolwyr:

- Ymrwymo i'n nodau a'n gwerthoedd
- Cyflawni eu rôl gwirfoddoli hyd eithaf eu gallu
- Gweithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr eraill, staff a'r cyhoedd
- Cefnogi a dilyn ein polisïau, gweithdrefnau, canllawiau a'n penderfyniadau rheoli
- Trin pawb y maent yn dod i gysylltiad â nhw trwy eu rôl gyda pharch
- Herio ac adrodd am unrhyw fath o fwlio, aflonyddu neu wahaniaethu
- Diogelu enw da y Gymdeithas MND bob amser trwy eu gweithredoedd a'u hymddygiad, gan ymddwyn yn gyfrifol ac o fewn y gyfraith
- Rhoi gwybod i'w Cadeirydd/Arweinydd neu gyswllt staff ar unwaith os oes ganddynt unrhyw broblemau, er mwyn i ni allu dod o hyd i ateb gyda'n gilydd
- Rhoi gwybod i'w Cadeirydd/Arweinydd neu gyswllt staff os oes unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau personol a allai effeithio ar eu gwaith gwirfoddoli.

> Rwy'n mwynhau gwybod fy mod yn helpu i godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer elusen mor anhygoel. Mae'n deimlad gwych gwybod eich bod yn gwneud gwahaniaeth mewn rhyw ffordd.
>
> Sammy, Gwirfoddolwr

## Gwirfoddoli gyda Chymdeithas MND

### Dysgu a datblygu

Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu cyflwyno i'w rôl ac yn cael gwybodaeth am Gymdeithas MND. I helpu gwirfoddolwyr i dyfu gyda ni, byddwn yn cynnig cyfleoedd iddynt fynychu cyrsiau, gweithdai a chynadleddau sydd yn berthnasol i'w rolau.

### Iechyd a diogelwch

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau lles a diogelwch gwirfoddolwyr tra'n gwirfoddoli gyda ni ac yn ei dro, rydym yn disgwyl i wirfoddolwyr gyfrannu at gynnal amgylchedd gwaith diogel. Gall gwirfoddolwyr gysylltu â'u Cadeirydd/Arweinydd, mentor gwirfoddoli neu gyswllt staff os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon am iechyd a diogelwch.

### Diogelu

Bydd angen i'r holl wirfoddolwyr gael dealltwriaeth sylfaenol o ddiogelu sydd yn addas ar gyfer eu rôl.  Bydd y Gymdeithas yn darparu gwybodaeth a chyfleoedd dysgu addas.

### Diogelu data a chyfrinachedd

Rydym yn cymryd gofal mawr i ddiogelu gwybodaeth gwirfoddolwyr fel rhan o'n cyfrifoldebau diogelu data. Rydym yn disgwyl i wirfoddolwyr ddiogelu unrhyw wybodaeth bersonol neu gyfrinachol y gallant ddod i gysylltiad â hi yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y Gymdeithas.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae Cymdeithas MND wedi ymrwymo i drin pobl yn deg ac heb wahaniaethu. Rydym yn ceisio bod yn sefydliad amrywiol a chynhwysol, gan werthfawrogi a dathlu gwahaniaethau unigol. Rydym yn annog ac yn galluogi pobl sydd wedi eu heffeithio gan MND i gyfrannu eu gwybodaeth a'u sgiliau trwy wirfoddoli. Rydym hefyd yn rhoi croeso cynnes i bobl waeth beth yw eu hymwybyddiaeth flaenorol o MND.



## Treuliau

Mae'r berthynas wirfoddoli yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gontract cyflogaeth na rhwymedigaethau eraill sydd yn gysylltiedig â chyflogaeth. Nid oes unrhyw daliad, ar wahân i ad-dalu treuliau y cytunwyd arnynt, yn cael ei wneud gan y sefydliad i bobl sydd yn rhoi eu hamser fel gwirfoddolwyr.

Gall gwirfoddolwyr wneud cais am ad-daliad o dreuliau parod fel costau teithio a, lle y bo'n briodol, prydau bwyd neu luniaeth. Bydd yn rhaid cytuno ymlaen llaw gyda'r Cadeirydd/Arweinydd neu gyswllt staff . Bydd angen derbynebion neu docynnau fel arfer ar gyfer hawlio unrhyw dreuliau.

## Defnyddio cerbyd ar gyfer gwirfoddoli

Nid ydym yn darparu yswiriant moduro ar gyfer ein gwirfoddolwyr. Dylai gwirfoddolwyr wirio gyda'u hyswiriwr cyn defnyddio eu cerbyd ar gyfer gwirfoddoli. Ni ddylai fod tâl ychwanegol am yrru mewn cysylltiad â gwirfoddoli elusennol. Os yw yswiriwr yn awgrymu tâl, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwirfoddoli fydd yn gallu eich cynghori pa gamau i'w cymryd.

## Gwirfoddoli a budd-daliadau

Gall pobl wirfoddoli tra'u bod yn derbyn budd-daliadau y wladwriaeth. Fodd bynnag, mae angen iddynt fod yn ymwybodol o rai rheolau er mwyn sicrhau nad yw eu gwirfoddoli yn effeithio ar y budd-daliadau y maent yn eu derbyn. Rydym yn cynghori pobl i drafod eu dewis o waith gwirfoddol gyda'u darparwr budd-daliadau.

## Yswiriant

Mae gennym yswiriant yn ei le i ddiogelu ein gwirfoddolwyr ac unrhyw atebolrwydd yn sgîl eu rolau gwirfoddol. Mae mwy o fanylion ar gael yn y Parth Gwirfoddoli.

## Datrys problemau

Rydym yn cymryd pryderon gwirfoddolwyr o ddifrif a byddwn yn ymdrechu i ddatrys unrhyw anawsterau y maent yn eu profi. Os bydd gwirfoddolwyr yn wynebu problemau neu os oes ganddynt bryderon tra'n gwirfoddoli gyda ni, dylent siarad â'u Cadeirydd/Arweinydd neu gyswllt staff. Byddant yn gallu cynghori gwirfoddolwyr a'u helpu i ddod o hyd i ateb.

Os ydych yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamwedd, byddai'r Gymdeithas yn gwerthfawrogi eich bod yn rhoi gwybod i ni.

Os ydych yn anfodlon gyda'r cymorth gan eich cyswllt lleol, cysylltwch â'r Pennaeth Gwirfoddoli.

## Niwtraledd gwleidyddol

Nid yw'r Gymdeithas MND yn ardystio nac yn cefnogi unrhyw blaid wleidyddol. Bydd angen i'r gwirfoddolwyr ystyried hyn wrth wneud eu rôl wirfoddoli, er mwyn osgoi peryglu niwtraledd y Gymdeithas.

> P'un ai eich bod eisiau bod yn rhan o ofalu, codi arian, codi ymwybyddiaeth neu ymgyrchu, byddwch, heb os, yn cael eich hybu gan y gymuned hon. Cyn hir byddwch yn canfod eich bod yn gwneud gwahaniaeth, hyd yn oed os mai camau bach yw hynny. Mae pob cam yn ein symud yn agosach at ofal gwell a'r nod pennaf, iachâd."
>
> David, Gwirfoddolwr

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn cydnabod bod cyfraniad gwirfoddolwyr yn hanfodol i'n gwaith. Gellir cael mynediad llawn i bolisïau a gweithdrefnau penodol y Gymdeithas, sydd yn berthnasol i staff a gwirfoddolwyr, yn y Parth Gwirfoddoli yn cynnwys:

- Cyfrinachedd
- Diogelu data
- Iechyd a diogelwch
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Diogelu oedolion agored i niwed
- Diogelu plant a phobl ifanc
- Mynegi pryderon

Gallwch hefyd ebostio volunteering@mndassociation.org i wneud cais am gopi papur.

## Mwy o arweiniad

Am fwy o wybodaeth neu gyngor am unrhyw agwedd ar wirfoddoli gyda ni, cysylltwch â'r Cadeirydd/Arweinydd perthnasol, cyswllt staff neu'r Tîm Gwirfoddoli:

Motor Neurone Disease Association
Francis Crick House
6 Summerhouse Road
Moulton Park
Northampton,
NN6 3BJ
Ffôn: 01604 611681

Ebost: volunteering@mndassociation.org

Am fwy o wybodaeth ewch i mndassociation.org/volunteerzone




Rhif elusen gofrestredig 294354



ver2. Nov19